

Defnyddio Dŵr yn Effeithlon – Arbed Dŵr

Mae Dŵr Cymru'n glanhau dros 800 miliwn litr o ddŵr y dydd ac yn ei anfon trwy bibellau i'n cartrefi i ni gael ei ddefnyddio. Mae angen llawer o ynni i bwmpio dŵr i gartrefi pobl a gall hyn wneud drwg i'r amgylchedd. Cofiwch y gallwch helpu i arbed dŵr mewn llawer o ffyrdd: mynd i'r gawod ac nid i'r bath, defnyddio can dŵr yn lle pibell ddŵr i roi dŵr i blanhigion a CHAU TAPIAU SY'N DIFERU!

Mae gofawlwr yr ysgol yn flin/grac am fod pobl yn gadael tapiâu i ddiferu yn yr ysgol a'i fod ef yn gorfod ei cau. Mesurodd faint o ddŵr oedd yn cael ei golli, mewn mililitrau, mewn un funud, mewn gwahanol fannau. Dyma a nododd.

Lleoliad	Problem	ml y funud
Ystafell staff	Y peiriant dŵr poeth yn gollwng ychydig.	35
Ffreutur	Un tap dŵr oer yn diferu.	60
Toiledau'r merched bach	Un tap yn rhedeg.	500
Toiledau'r bechgyn bach	Y tapiâu i gyd wedi'u cau.	0
Toiledau merched yr adran iau	Y tapiâu i gyd wedi'u cau.	0
Toiledau bechgyn yr adran iau	Un tap yn diferu'n araf.	15

Defnyddiwch yr wybodaeth isod i gyfrif sawl litr o ddŵr y byddai'r ysgol yn eu gwastraffu mewn blwyddyn. **Cewch ddefnyddio cyfrifiannell.**

ml mewn 1 funud		ml
ml mewn 1 awr	x 60	
Troi i litrau	÷ 1000	
Litrau mewn 1 diwrnod	x 24	
Litrau mewn 1 wythnos	x 7	
Litrau mewn 1 flwyddyn	x 52	
Sawl llond bath fyddai'n cael ei wastraffu?	÷ 80	



Mae bath arferol yn cynnwys 80 litr o ddŵr

Ystafell staff	_____litrau	Ffreutur	_____litrau
Toiledau'r merched bach	_____litrau	Toiledau bechgyn yr adran iau	_____litrau
Y cyfanswm fyddai'n cael ei wastraffu, mewn litrau (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf)	_____litrau	Sawl llond bath fyddai'n cael ei wastraffu i gyd?	_____llond bath